


Beth yw person?

?

wel, ie, ond hefyd ...



https://upload.wikimedia.org/wikipedia/commons/b/b6/Dclubley_stick_figure.png



https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Cow_female_black_white.jpg



<https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Wasserhahn.jpg>



<http://freevectordownloadz.com/clip-art-vector/stack-of-books-taller-clip-art/#.WIUJ2WSLSgQ>



<http://clipart-library.com/images-of-computer.html>

Oherwydd, wrth drafod BERFAU, rydym ni'n defnyddio'r term 'person' i gyfeirio at UNRHYW BETH sy'n GWNEUD y FERF

Mae'r fuwch yn cnoi cil ...

Felly 'person' y ferf yw'r ???? FUWCH

Diferodd y tap drwy'r nos ...

Felly 'person' y ferf yw'r ???? TAP

Dywed y llyfrau hanes yr holl ganrifoedd ...

Felly 'person' y ferf yw'r ????

Gall y cyfrifiadur roi llawer o wybodaeth i ni ...

Felly 'person' y ferf yw'r ????

Felly'r **AMHERSONOL**

Yw PAN NAD OES modd dweud yn union pwy/beth yw'r person!

('ONE')

It is said

It is written



-ir y presennol

**e.e Dywedir, Gwelir,
Ysgrifennir**

-wyd y gorffennol

**e.e. Dywedwyd,
Gwelwyd,
Ysgrifennwyd**

-id yr amherffaith
a'r amhenodol

e.e. Edrychid

-er y gorchmynnol

e.e. Sylwer

****DIM TREIGLO****

Nid oes angen treiglo gwrthrych berfau amhersonol, e.e.

Cyhoeddwyd **dyddiad** y cyfarfod nesaf.

****NEGYDDOL****

Mae **ni** neu **nid** yn cael eu gosod o flaen y ffurf amhersonol er mwyn cyfleu'r negyddol ac mae angen cofio treiglo'n llaes neu'n feddal.

P T C yn treiglo'n llaes

B D G Ll M Rh yn treiglo'n feddal

Ni lwyddwyd i orffen y gwaith mewn pryd.

Ni **chy**hoeddir y dyddiad gan y Cadeirydd tan ddiwedd y cyfarfod.

ENGHREIFFTIAU

Dywedir bod Gethin yn athro gwych

Yn y llyfr, disgrifir bywyd person ifanc

Agorwyd y cyfarfod i bawb

Ailgodwyd yr adeilad ym 1999

Sylwer ar yr arwyddion

Ni ddylier ysmygu yn yr ystafell hon

YMARFERION

Mae'r llyfr wedi cael ei ysgrifennu yn Saesneg

Mae car yn cael ei weld.

Nid yw ysymygu yn cael ei ganiatáu yn yr ysgol

Cafodd yr ysgol ei chodi yn 1989

Cafodd dwy gôl eu sgorio

Mae'r gwersi yn cael eu dysgu yn Saesneg

Pam fod pobl yn drysu?

- 1) Y 'person'
- 2) Y terfyniad 'ir'.
- 3) NODER mae IR yn wahanol i 'a'r'



Awgryma'r bardd
Ysgrifenna'r awdur
Cerdda'r fam

Awgrymir
Ysgrifennir
Cerddir i'r ysgol

Mae'r bachgen yn gweld car.

Mae'r ferch yn darllen llyfr.

Mae'r athrawes yn cymharu cwestiynau.

Mae'r awdur yn awgrymu tristwch.

Mae'r bardd yn dangos pwysigrwydd rhyfeddfod.

Mae'r arolygwr yn chwilio am enghreifftiau o arfer dda.

Mae'r tiwtor yn mynnu tystiolaeth o'r Cwricwlwm Cymreig.

Mae'r llywodraeth yn pwysleisio gwerth y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Berfenw	3ydd unigol cryno — nid yw pob berf yma ... beth yw'r patrwm?
Agor	Egyr
Awgrymu	Awgryma
Cael	Caiff
Clywed	Clyw
Cymharu	Cymhara
Dangos	Dengys
Dod	Daw
Dweud	Dywed
Esbonio	Esbonia
Gweld	Gwêl
Gwybod	Gŵyr
Honni	Honna
Mynnu	Mynna
Mynd	Â / Aiff

Tasg: BERFAU AMHERSONOL. Pa 3 brawddeg sy'n gywir?

- Defnyddir yr awdur nifer o esiamplau.
- Dangosir yr ymchwil sawl ffaith ddiddorol
- Dywed y bardd fod y byd ar ben.
- Esbonir y llyfr beth yw pwysigrwydd ail-gylchu.
- Esbonia'r llyfr beth yw pwysigrwydd ail-gylchu.
- Yn y traethawd trafodir pwysigrwydd ieithoedd lleiafrifol.

Beth os ydych chi eisiau dangos **PWY/BETH** wnaeth y ferf wedi'r cyfan...

Wrth ddefnyddio'r **AMHERSONOI** – *sy'n hyfryd o ran arddull gwrthrychol ar gyfer aseiniadau etc*

Gallwch chi gyflwyno PWY/BETH drwy ddefnyddio **GAN**

- Rhedwyd ras **gan** y ferch.
- Ysgrifennwyd y gerdd **gan** y bardd.
- Ysgrifennwyd yr adroddiad **gan** yr athrawes
- Agorwyd y cyfarfod **gan** y prifathro

Mae'r bachgen yn gweld car.

Mae'r ferch yn darllen llyfr.

Mae'r athrawes yn cymharu cwestiynau.

Mae'r awdur yn awgrymu tristwch.

Mae'r bardd yn dangos pwysigrwydd rhyfeddfod.

Mae'r arolygwr yn chwilio am enghreifftiau o arfer dda.

Mae'r tiwtor yn mynnu tystiolaeth o'r Cwricwlwm Cymreig.

Mae'r llywodraeth yn pwysleisio gwerth y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Berfenw	Amhersonol – nid yw pob berf yma, beth yw'r patrwm?
Agor	Agorir
Awgrymu	Awgrymir
Cael	Ceir
Clywed	Clywir
Cymharu	Cymherir
Dangos	Dangosir
Dod	Deuir
Dweud	Dywedir
Esbonio	Esbonnir
Gweld	Gwelir
Gwybod	Gwyddys
Honni	Honnir
Mynnu	Mynnir
Mynd	Eir

Cywirwch:

Penderfynwyd y dosbarth eu bod am wneud arddangosfa

I orffen y thema cafwyd weithdy.

Cafwyd gyflwyniad clir.

Cyflwynwyd lestyn waith da.

Cyfrannir Mared at drafodaethau yn gyson.

Welir bod cynnydd mawr yn ei gwaith.

Weler bod lestyn wedi gwella.

Fe gychwynnodd trwy ofyn i'r disgyblion feddwl am eu harwyr.

Trawsieithu



Mae gwahaniaeth sylfaenol rhwng **trawsieithu** a **chyfieithu**.

Wrth gyfieithu, rhaid trosglwyddo'r **testun yn ei gyfanrwydd** o un iaith i'r llall.

Wrth **DRAWSIEITHU**, rhaid trsoglwyddo **YSTYR** y darn yn gyffredinol i iaith arall gan ddefnyddio eich geiriau eich hun.

Wrth **drawsieithu** yn ysgrifenedig:

Rydym yn

- chwilio am y **prif syniadau** mewn darn (e.e. Saesneg)
- cyfleu'r **prif syniadau** hyn yn yr iaith arall (e.e. Cymraeg) gan gadw'r iaith mor syml a dealladwy ag sy'n bosibl

- DARLLEN darn yn sydyn ac yn arwynebol er mwyn cael syniad o'r cynnwys.
- Nodi'r pwyntiau yr ydych wedi sylwi arnynt
- Darllen y darn yn fanwl
- Beth yw prif bwynt y darn?
- Beth yw'r is-bwyntiau?
- Gwnewch bwyntiau bwled neu fap meddwl
- Ceisiwch wneud nodiadau yn Gymraeg heb ddibynnu ar y darn. Pediwch â chyfieithu air am air. Defnyddiwch eich geiriau eich hun

Crynowch gynnwys y darn i draean y gwreiddiol gan gofio

- Peidio ychwanegu eich barn / eich syniadau eich hun
- Dim enghreifftiau, oni bai eu bod yn hanfodol
- Osgoi ailadrodd
- Defnyddio eich geiriau eich hun
- Cadw'r brawddegau yn fyr

- Cofiwch hefyd roi sylw i gywirdeb iaith :

sillafu; geirfa / termau; cenedl enwau

Treigladau

Trefn eich brawddegau a pheidio â defnyddio
trefn y brawddegau Saesneg.

- **Defnyddiwch CYSILL!**

Enghraifft:

Over 5,000 years ago, the world's first civilized nation was born on the banks of the River Nile, in Egypt. It was not the only centre of civilization, large cities already existed not far away, in Mesopotamia (modern Iraq). But the people of Mesopotamia were not a nation. Each city had a different king, different laws and different gods. Egyptians were ruled by one king, obeyed the same laws, and worshipped the same gods. The king, or pharaoh, was not only the ruler of Egypt but he was also a god. In fact, he was several gods. As ruler, he was linked with the royal god Horus. Sometimes, he was seen as the sun god Ra. After his death, he became joined with Osiris, god of the dead. The civilization of ancient Egypt lasted for about 3,000 years. That is much longer than our own civilization has lasted. For that reason at least, the world's first civilization was also one of the most successful.

N. Grant, *The Egyptians* (Oxford, 1993) 6 & 16

Over 5,000 years ago, the world's first civilized nation was born on the banks of the River Nile, **in Egypt**. It was not the only centre of civilization, **large cities already existed not far away, in Mesopotamia** (modern Iraq). But the people of Mesopotamia were **not a nation. Each city had a different king**, different laws and different gods. **Egyptians were ruled by one king**, obeyed the same laws, and worshipped the same gods. The king, or pharaoh, was not only the ruler of Egypt but **he was also a god. In fact, he was several gods**. As ruler, he was linked with the royal god Horus. Sometimes, he was seen as the sun god Ra. After his death, he became joined with Osiris, god of the dead. **The civilization of ancient Egypt lasted for about 3,000 years**. That is much longer than our own civilization has lasted. For that reason at least, **the world's first civilization was also one of the most successful**.

Yn gryno:

- Sefydlwyd y genedl waraidd gyntaf dros 5,000 o flynyddoedd yn ôl yn yr Aifft
- Roedd dinasoedd eraill yn bodoli yn ardal Mesopotamia, ond nid oeddynt yn genedl
- Roedd gan pob dinas yn Mesopotamia (neu 'yno') frenin gwahanol
- Un brenin oedd gan yr Eifftwyr, sef Pharo
- Bodolodd y genedl hon am oddeutu 3,000 o flynyddoedd